# Gwahoddiad i Dendro

# Datblygu Strategaeth Arwyddion, Dynodi Llwybrau a Brandio ar gyfer Parc Cyfarthfa

**Paratowyd gan Sefydliad Cyfarthfa a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

**Ionawr 2025**

## 1.0 Cefndir

### 1.1 Parc a Chastell Cyfarthfa

Mae Parc Cyfarthfa yn Barc a Gardd Hanesyddol 200 mlwydd oed o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig, ac mae wedi'i gofrestru fel y cyfryw gan Cadw a'r Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS). Mae'r Parc yn cynnwys gerddi Castell Cyfarthfa, sydd o bwys hanesyddol.

Mae Castell Cyfarthfa yn adeilad rhestredig Gradd I. Cafodd ei adeiladu mewn dwy ran: y castell gwreiddiol ym 1825 a, bron i ganrif yn ddiweddaraf, adeiladwyd adeiladau ysgol ar gyfer Ysgol Uwchradd Cyfarthfa ar ôl iddo gael ei drosglwyddo o berchnogaeth y teulu Crawshay i'r Cyngor. Mae llawr gwaelod y rhan sy'n dyddio o 1825 yn gartref i'r amgueddfa a'r oriel bresennol sy'n adrodd hanes diwydiannol Merthyr ac yn arddangos casgliad o fwy na 300 o weithiau celf gan amrywiaeth eang o artistiaid. Gadawodd Ysgol Uwchradd Cyfarthfa yr adeilad ddeng mlynedd yn ôl ac mae'r rhan hon wedi bod yn wag ers hynny.

Ym mis Hydref 2017, daeth mwy na 60 o arbenigwyr a sefydliadau cymunedol ynghyd i drafod syniadau ar gyfer safle Castell Cyfarthfa. Trefnwyd y digwyddiad gan Gomisiwn Dylunio Cymru, gyda chymorth Ysgol Bensaernïaeth Cymru, a chanlyniad y trafodaethau hynny oedd adroddiad 'Y Pair' a'r weledigaeth o greu canolfan genedlaethol ar gyfer treftadaeth ddiwydiannol yng Nghyfarthfa. Cafodd yr adroddiad ei dderbyn yn unfrydol gan Gyngor Merthyr Tudful a gytunodd i gomisiynu cynllun meistr ar gyfer yr ardal. Nododd y cynllun meistr hwn, a luniwyd gan Ian Ritchie Architects, dros 70 o brosiectau posibl, gyda'r gwaith wedi'i rannu'n bedwar cam ar draws dau ddegawd. Yn ganolog i gynllun meistr Ian Ritchie roedd creu amgueddfa yn canolbwyntio ar bobl yng Nghyfarthfa, wedi'i lleoli mewn parc eithriadol 100 hectar, er budd y gymuned leol.

Sefydlwyd Sefydliad Cyfarthfa i droi'r weledigaeth ar gyfer Cyfarthfa yn gynllun yr oedd modd ei gyflawni. Sefydliad elusennol ydyw a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2020. Mae'r Sefydliad yn gweithio ochr yn ochr â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, y mae'r castell yn eiddo iddo ar hyn o bryd.

Yn 2021, cytunodd Llywodraeth Cymru i ariannu'r cam datblygu, ac felly dechreuwyd ar y gwaith o feithrin gwell dealltwriaeth o'r safle, a chomisiynwyd arolygon ac arfarniadau newydd.

Mae Parc Cyfarthfa yn barc pwysig, yn lleol ac yn rhanbarthol. Yn ogystal â chynnig cyd-destun hanesyddol pwysig i'r Castell, mae'r parc hefyd yn cynnig cyfleusterau mwy confensiynol a gysylltir yn aml â pharciau cyhoeddus.

### 1.2 Gofynion

Mae Sefydliad Cyfarthfa a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn edrych i ddatblygu Strategaeth Arwyddion, Dynodi Llwybrau a Brandio newydd ar gyfer Parc Cyfarthfa.

Rydym yn edrych nawr i benodi ymgynghorwyr i ddylunio datrysiad cyfeiriadu llawn er mwyn gwella arwyddion a dulliau cyfeiriadu yn y Parc. Bydd y datrysiad hwn yn datblygu gwaith sydd wedi'i wneud eisoes ac yn ymchwilio i'r potensial o uwchraddio'r arwyddion presennol.

## 2.0 Y Briff

### 2.1 Trosolwg

Mae adborth gan y sawl sy'n defnyddio'r parc a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y parc wedi nodi y gallai'r arwyddion o amgylch Parc Cyfarthfa gael eu gwella. Rydym eisiau sefydlu strategaeth arwyddion gydlynol sy'n helpu i greu ymdeimlad o le ar gyfer Parc Cyfarthfa, sy'n helpu defnyddwyr i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y parc ac sy'n helpu busnesau a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn y parc. Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o arwyddion a hysbysfyrddau yn y Parc sydd wedi'u caffael dros nifer o flynyddoedd. Mae'r rhain yn amrywio o ran dyluniad o arwyddbyst arddull Oes Fictoria i arwyddion ffyrdd ad hoc a physt dur. Rôl yr ymgynghorydd fydd gwerthuso'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd a llunio strategaeth arwyddion yn seiliedig ar ddefnydd presennol a datblygiadau yn y parc yn y dyfodol. Rhaid i'r dyluniadau gyd-fynd â'r cynlluniau ehangach ar gyfer datblygu Cyfarthfa.

### 2.2 Cwmpas y Gwaith

Wrth fynd ati i ddatblygu'r strategaeth, dylid talu sylw penodol i'r canlynol:

- Atgyfnerthu hunaniaeth Parc a Chastell Cyfarthfa fel endid unedig sy'n dathlu ei dreftadaeth.
- Ymchwilio i'r potensial o addasu / uwchraddio arwyddion cyfeiriadol presennol i'w gwneud hi'n haws i bobl wybod pa ffordd i fynd.
- Dynodi, dangos a hyrwyddo prif barthau, cyfleusterau, treftadaeth ac atyniadau'r parc mewn ffordd syml a hawdd ei deall.
- Dylai'r dyluniad fod yn gynhwysol a dylai gynnig syniadau ynghylch sut y gellir cefnogi pobl ag anghenion mynediad ychwanegol. Dylai hefyd gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.
- Dylai fod ymgais glir i gael gwared ar broblemau sy'n gysylltiedig â fandaliaeth, graffiti a gosod posteri'n anghyfreithlon, ac i fynd i'r afael â'r ymddygiad gwrthgymdeithasol hwn mewn ffordd arloesol a gweledol sensitif.
- Polisi dwyieithog y Cyngor a sut y bydd hwn yn cael ei gynnwys yn y dyluniad.

### 2.3 Y Sgiliau a'r Profiad sydd eu Hangen

- Record brofedig o sgiliau technegol sy'n ymwneud â hirhoedledd, cynaliadwyedd a rhagoriaeth dylunio wrth ddefnyddio adnoddau (gan gynnwys enghreifftiau).
- Record brofedig o ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau, busnesau a'r sector cyhoeddus, gydag enghreifftiau penodol o'r ffordd y mae hyn wedi'i gyflawni yn y gorffennol.
- Profiad o weithio ar safleoedd treftadaeth o bwys sylweddol ac, os yn bosibl, yng nghyd-destun parciau a gerddi cofrestredig.
- Profiad o weithio ar brosiectau perthnasol yng Nghymru a gwerthfawrogiad o ddiwylliant a threftadaeth Cymru.

### 2.4 Cyfranogiad a Chydweithrediad y Cyhoedd

Bydd disgwyl i'r contractwr ymgynghori â rhanddeiliaid. Rhaid i'r ymgynghoriad fod wedi'i gynllunio'n ofalus yn unol ag amserlen benodol. Fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, rhaid i randdeiliaid gan gynnwys Adran Barciau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Fforwm y Parc, Cyfeillion Parc Cyfarthfa a'r gymuned leol gymryd rhan mewn ffordd ystyrlon a rhaid i'r sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol fod ar gael i gyflawni'r agwedd hon ar yr astudiaeth. Yn benodol, rhaid i ddyheadau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gael eu deall yn glir a'u hadlewyrchu yn y canfyddiadau. Rhaid i drafodaethau cynnar ar y prosiect gael eu cynnal â'r Adran Gynllunio a Cadw.

### 2.5 Enwau Cyswllt a Rhanddeiliaid Allweddol

| |
|---|
| Jess Mahoney, CEO, Sefydliad Cyfarthfa |
| Gemma Durham, Cyfarwyddwr Brand ac Ymgysylltu, Sefydliad Cyfarthfa |
| Zoe Thomas, Rheolwr Adfywio Strategol, Cyngor Merthyr Tudful |
| Andrew Taylor, Adran Barciau, Cyngor Merthyr Tudful |
| Craig Watkins, Adran Gynllunio, Cyngor Merthyr Tudful |
| Sue Walker, Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Merthyr Tudful |
| Anneleise Shepherd, Rheolwr Ymgysylltu â'r Gymuned, Sefydliad Cyfarthfa |
| Wren Bull, Rheolwr Cyllid, Sefydliad Cyfarthfa |
| Kelly Powell, Rheolwr Amgueddfeydd, Cyngor Merthyr Tudful |

### 2.6 Amserlen

| **Dyddiad** | **Cam y Prosiect** |
|---|---|
| 14 Ionawr 2025 | Cyhoeddi'r briff |
| 28 Ionawr 2025 | Dyddiad cau ar gyfer tendrau |
| w/d 4 Chwefror | Dechrau'r gwaith |
| 30 Ebrill 2025 | Dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad terfynol |

### 2.7 Ffi

Yr uchafswm ffi sydd ar gael yw £10,000, gan gynnwys treuliau a theithio ond heb gynnwys TAW.

Noder, os ydych chi'n teimlo nad yw hyn yn cwmpasu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r briff hwn, fe'ch gwahoddir i nodi hyn yn eich tendr. O'r herwydd, nid yw cais sy'n nodi ffioedd o fwy na £10,000 yn golygu na chaiff ei ystyried o reidrwydd.

Rhowch ddadansoddiad o'r costau (gan gynnwys TAW) ar gyfer pob eitem a nodir uchod yn y symiau gwahanol a fyddai'n cael eu harchebu fel arfer ar gyfer y cyfryw eitemau.

Noder: Rhaid i'r holl gostau a ddarperir gynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth (gan gynnwys teithio a chynhaliaeth). Ni chaiff unrhyw daliadau sydd heb eu nodi yn yr Ymateb Tendr eu hystyried.

Fel canllaw, dylai'r ymgynghoriaeth lwyddiannus ystyried, wrth gyflwyno ffi, y bydd cyfanswm costau'r prosiect ar gyfer gweithredu'r prosiect yn cael eu cytuno.

Dyfynnwch gyfanswm costau'r prosiect (gan gynnwys treuliau). Dylai costau gynnwys popeth – unrhyw gyflenwyr trydydd parti i gael eu had-dalu ar gost.

## 3.0 Cyfarwyddiadau ar gyfer Ymgeiswyr

### 3.1 Fformat Ceisiadau

Yn ogystal â'r **Ffurflen Dendro** (atodiad A1), dylai eich cais gynnwys y canlynol:

- Datganiad neu Lythyr Eglurhaol sy'n amlinellu eich dull o fynd i'r afael â'r briff
- O leiaf dair enghraifft o waith perthnasol
- Ffi sefydlog sy'n dangos eich cyfradd ddyddiol (a'r rhai ar gyfer unrhyw is-ymgynghorwyr, nifer y diwrnodau a gaiff eu treulio ar bob tasg a'r holl ffioedd a threuliau)
- Geirdaon a dogfen gyflwyno
- Manylion Indemniad Proffesiynol ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Dylai tendrau wedi'u cwblhau gael eu dychwelyd drwy e-bost i info@cyfarthfafoundation.wales erbyn hanner dydd ar 28 Ionawr 2025.

### 3.2 Meini Prawf Asesu

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu o ran dulliau arloesol a gwerth am arian. Nid yw'r cleient yn rhwymo'i hun i dderbyn y tendr isaf, nac unrhyw dendr.

Yn unol â rheoliadau ariannol yr Awdurdod, bydd angen i ymgynghorwyr gydymffurfio â phroses dendro ffurfiol. Nodir y prif feini prawf y bydd y penderfyniad yn seiliedig arnynt isod, fel canllaw:

- Y gallu i fodloni gofynion – fel y dangosir drwy ddealltwriaeth amlwg o'r briff a thystiolaeth o brofiad blaenorol.
- Cystadleurwydd o ran costau – bydd ceisiadau'n cael eu hasesu yn ôl dulliau arloesol a gwerth am arian. Nid yw'r cleient yn rhwymo'i hun i dderbyn y tendr isaf, nac unrhyw dendr.
- Y ffordd yr eir ati i gyflawni'r prosiect – mae'n bwysig bod partïon perthnasol yn ymwneud â'r gwaith datblygu ac felly mae methodoleg yn elfen bwysig o'r asesiad.
- Camau'r Briff – Adroddiad Interim, Adroddiad Terfynol.
- Y gallu i gwblhau'r comisiwn – drwy adnoddau sydd ar gael i dîm y cleient a'r rhaglen waith ar gyfer cwblhau'r astudiaeth.

### 3.3 Ffurflenni Tendro

**Yswiriant**
Bydd cyrff sy'n tendro yn meddu ar £2m o Indemniad Proffesiynol a £5m o Atebolrwydd Cyhoeddus.

**Paratoi Tendr**
Mae'r sawl sy'n tendro yn gyfrifol am gasglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i baratoi eu hymateb; a'r sawl sy'n tendro fydd yn gyfrifol am yr holl gostau, treuliau a rhwymedigaethau yr eir iddynt mewn cysylltiad â pharatoi a chyflwyno'r tendr a mynychu unrhyw gyfweliadau.

Disgwylir i'r sawl sy'n tendro fod wedi cynnal yr holl waith ymchwil, ymchwiliadau ac ymholiadau y gellir eu cynnal yn rhesymol ac wedi bodloni ei hun ynghylch natur, graddau a chymeriad gofynion y Contract (yng nghyd-destun y Fanyleb a'r ffordd y'u disgrifir ynddi), graddau'r deunyddiau a'r offer y gall fod eu hangen ac unrhyw fater arall a all effeithio ar ei Ffurflen Dendro.

**Ymatal rhag ystyried Ffurflen Dendro**
Rydym yn cadw'r hawl i beidio â dyfarnu'r contract i'r sawl sy'n cyflwyno'r tendr â'r sgôr uchaf, y tendr â'r pris isaf neu unrhyw dendr; ac rydym hefyd yn cadw'r hawl i dderbyn unrhyw un o'r rhain yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Gallwn hefyd ymatal rhag ystyried unrhyw Ffurflen Dendro os nad yw'n cydymffurfio â'r Ffurflen Dendro a'r Amodau Tendro, neu os na fydd y sawl sy'n tendro yn darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen neu'n ceisio gwneud amrywiad neu newidiadau i'r Ffurflen Dendro, Amodau'r Contract neu'r Briff.

**Gwarantau'r Sawl sy'n Tendro**
Wrth gyflwyno tendr, mae'r sawl sy'n tendro yn gwarantu:

- ei fod yn gyson â'r fformat a nodir yn y ddogfen hon,
- bod yr holl wybodaeth a ddarperir yn wir, yn gyflawn ac yn gywir ym mhob ffordd gan gynnwys manylion prosiectau blaenorol sy'n cael eu cyflwyno fel enghreifftiau,
- bod ganddo'r pŵer ar awdurdod llawn i ymrwymo i'r Contract,
- ei fod mewn sefyllfa ariannol gadarn,
- nid yw ei bartneriaid, ei gyfarwyddwyr na'i gyflogeion yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau a all gael effaith niweidiol ar y cyfryw sefyllfa ariannol yn y dyfodol.

**Cyfrinachedd**
Caiff y Ffurflen Dendro, Amodau'r Contract, y Briff a'r holl ddogfennaeth neu wybodaeth arall a roddir gennym sy'n ymwneud â'r tendr eu trin yn breifat ac yn gyfrinachol gan y sawl sy'n tendro a'u defnyddio mewn cysylltiad â'r tendr yn unig. Ni chaiff unrhyw gontract canlyniadol ei ddatgelu yn gyfan gwbl neu'n rhannol i unrhyw drydydd parti heb ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw. Mae'r dogfennau sy'n rhan o'r prosiect a phob copi ohonynt yn eiddo i'r Sefydliad a'r Cyngor (pa un a fyddwn wedi codi ffi am gyflenwi'r cyfryw ddogfennau ai peidio) a byddant yn parhau i fod yn eiddo iddynt, ac ni ddylid eu copïo na'u hatgynhyrchu yn gyfan gwbl neu'n rhannol a rhaid eu dychwelyd atom os gofynnir amdanynt. Caiff yr holl wybodaeth a ddarperir gan y sawl sy'n tendro ei thrin yn gyfrinachol.

**Rhyddid Gwybodaeth**
Efallai y sicrheir bod gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r tendr hwn ar gael ar gais yn unol â gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Dylai'r sawl sy'n tendro nodi os yw unrhyw wybodaeth a roddir ganddynt yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif neu na ddylai gael ei datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf, a dylent nodi pam mae'r wybodaeth yn gyfrinachol neu'n fasnachol sensitif yn eu barn nhw. Ni fydd hyn yn gwarantu na chaiff y wybodaeth ei datgelu, ond caiff ei archwilio yn y rhestr o eithriadau a ddarperir yn y Ddeddf.

**Noder:**
Bydd y tendr yn cynnwys yr holl ffioedd, treuliau a thaliadau eraill.

Caiff y penodiad ei wneud yn dilyn cyfweliad drwy gyfnewid llythyr.

Gall y penodiad gael ei derfynu gan y cleient ar ôl i'r holl ffioedd am waith a gwblhawyd hyd at y dyddiad hwnnw gael eu talu.

Bydd yr holl ddogfennaeth a'r deunyddiau dangosol yn cael eu trosglwyddo i berchenogaeth y cleient.

Cyfrifoldeb y sawl sy'n tendro yw sicrhau bod yr holl ffioedd, cyfraddau a phrisiau a ddyfynnir yn gywir. Bydd yn ofynnol i'r sawl sy'n tendro gadw at y rhain neu dynnu eu tendr yn ôl os caiff gwallau eu nodi ar ôl i dendrau gael eu cyflwyno.

Os bydd y sawl sy'n tendro yn methu â darparu'n llawn ar gyfer gofynion y fanyleb yn y tendr, rhaid iddo naill ai gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â bodloni gofynion llawn y fanyleb yn y pris a nodwyd yn ei dendr, neu dynnu'r tendr yn ôl.

Ni ystyrir unrhyw dendr a gyflwynir yn hwyr, am ba reswm bynnag, ac ni chaniateir newidiadau ar ôl y dyddiad cau.

Bydd pob un o'r rhai sy'n tendro yn sicrhau bod eu Ffurflenni Tendro priodol yn ddilys ac ar gael i'w derbyn gennym am 90 diwrnod o'r dyddiad y byddant yn dod i law.

**3.4 Ymholiadau**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch y briff hwn i:- info@cyfarthfafoundation.wales

Os bydd gennych chi unrhyw amheuaeth ynghylch ystyr cyflawn a chywir y dogfennau tendr, rhaid i chi gyflwyno eich cwestiynau yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i info@cyfarthfafoundation.wales o fewn y saith diwrnod cyntaf. Yna, caiff atebion i'r cwestiynau a godir eu dosbarthu i bawb arall sy'n cystadlu am y tendr.

**3.5 Rhestr o Ddynodiadau sy'n ymwneud â'r safle**

- Tirwedd Hanesyddol Merthyr Tudful – Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru
- Cyfarthfa Park – Parc a Gardd Gofrestredig Gradd II* o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru
- Ardal Gadwraeth Cyfarthfa – Ardal Gadwraeth Ddynodedig o dan a.69 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Castell Cyfarthfa – Adeilad Rhestredig Gradd I
- Pileri gatiau a rheiliau wrth y fynedfa i Barc Cyfarthfa – Strwythur Rhestredig Gradd II
- Muriau'r parc o bob tu i'r rheiliau ym Mharc Cyfarthfa – Strwythur Rhestredig Gradd II

**3.6 Dogfennau Cefndir**

Strategaeth Arwyddion Parc Cyfarthfa 2010

Cynllun Meistr Cyfarthfa: www.ritchie.studio/projects/cyfarthfa-plan

## 4.0 Atodiadau

### 4.1 Ffurflen Dendro

**Prosiect:** Arwyddion Parc Cyfarthfa

**Gwasanaeth Proffesiynol:** Datblygu a Dylunio Strategaeth Arwyddion

**Enw'r Sawl sy'n Tendro:**

Yr wyf i/Yr ydym ni, sydd wedi arwyddo isod, drwy hyn yn cynnig gweithredu a chwblhau'r gwasanaethau proffesiynol y sonnir amdanynt uchod mewn cydymffurfiaeth lwyr â'r Rhestr Gwasanaethau ar gyfer y swm un ffi canlynol:

**£** ynghyd â TAW

**Cadarnhau'r ffigur mewn geiriau:** ynghyd â TAW

**Adnoddau**

| | | TEITL SWYDD | AMSER % | COST % | COST £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Ar gyfer Prif Swyddogion | | | | |
| **2.** | Ar gyfer staff ar raddfeydd eraill | | | | |
| **3.** | Ar gyfer staff ar raddfeydd eraill | | | | |
| **4.** | Ar gyfer staff ar raddfeydd eraill | | | | |
| **5.** | Ar gyfer staff ar raddfeydd eraill | | | | |
| | | | | **Cyfanswm** | |
| | | | **=100%** | **=100%** | **DS dylai ddod i'r cyfanswm uchod** |

Caiff y cyfraddau dyddiol uchod eu defnyddio i negodi unrhyw waith ychwanegol y gall fod ei angen os tybir ei fod y tu hwnt i gwmpas rhesymol y gwaith a nodir. Dylai cyfraddau dyddiol fod yn seiliedig ar 7.5 awr y dydd a dylent gynnwys lwfans ar gyfer alldaliad.

**Treuliau ac Alldaliadau**

Dylai'r ffi a gynigir gynnwys yr holl dreuliau ac alldaliadau (gan gynnwys taliadau argraffu).

**Cyfnod y Cynnig**

Bydd y tendr/cynnig hwn yn parhau i fod ar gael am gyfnod o 90 diwrnod o'r dyddiad a nodir ar y tendrau a ddychwelir.

Dyddiedig:

| Y sawl sy'n tendro i ddarparu ymatebion. Mae rhai yn llwyddo/methu | |
|---|---|
| Enw'r cwmni | |
| Cyfeiriad post | |
| Cyfeiriad cofrestredig (os yw'n berthnasol) | |
| Rhif y cwmni (os yw'n berthnasol) | |
| Nodwch a ydych yn: unig fasnachwr, partneriaeth, Cwmni Cyfyngedig Preifat neu Gyhoeddus neu fath arall o sefydliad | |
| Prif berson cyswllt | |
| Rhif ffôn y person cyswllt | |
| Cyfeiriad e-bost y person cyswllt | |
| | |
| Nodwch lefel eich Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr, rhif y polisi a'r dyddiad y daw i ben* | |
| Nodwch lefel eich Yswiriant Indemniad Cyhoeddus, rhif y polisi a'r dyddiad y daw i ben | |
| Nodwch lefel eich Yswiriant Indemniad Proffesiynol, rhif y polisi a'r dyddiad y daw i ben | |
| | |
| Llofnod y person awdurdodedig | |
| Enw'r person awdurdodedig | |
| Ym mha rinwedd y mae'n llofnodi | |

*Os nad oes gennych chi unrhyw rai o'r polisïau yswiriant hyn, nodwch a fyddwch yn eu prynu os dyfernir y contract i chi. Os nad ydynt yn berthnasol e.e. nid ydych yn gyflogwr, nodwch hynny.